Royal College of Physicians

National Respiratory Audit Programme (NRAP)



# Archwiliad gofal sylfaenol

## Gwybodaeth i blant 4-7 oed

## Beth ydy'r prosiect asthma?

Mae meddygfa dy feddyg di'n cymryd rhan mewn archwiliad asthma. Mae archwiliad yn golygu edrych ar rywbeth i weld pa mor dda mae'n gweithio. Mae'r archwiliad yma'n edrych ar sut mae dy feddygon a dy nyrsys di'n gofalu amdana ti, ac yn trin dy asthma. Nod yr archwiliad ydy cael gwybod sut i wella gofal asthma, a gwneud yn siŵr ei fod yn gwella i bawb.

## Sut mae'r prosiect asthma yn gweithio?

Bydd y prosiect yn cael yr wybodaeth am dy asthma oddi ar y cyfrifiaduron mae dy feddygon a dy nyrsys di'n eu defnyddio. Fydd dim rhaid i ti wneud unrhyw beth ychwanegol. Bydd y prosiect yn edrych ar:

- sut mae'r meddyg yn profi dy asthma
- pa feddyginiaeth rwyt ti'n ei defnyddio
- sut mae'r meddygon a'r nyrsys yn gofalu amdanat ti.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

1. Bydd ein tîm yn ysgrifennu adroddiad am yr atebion.
2. Fyddwn ni ddim yn defnyddio dy enw, dyddiad dy ben-blwydd na ble rwyt ti'n byw wrth ysgrifennu'r adroddiad. Fydd neb yn gwybod bod gwybodaeth amdana ti.
3. Bydd meddygon a nyrsys yn cael gwybod pa mor dda maen nhw'n gofalu am bobl fel ti.

Drwy fod yn rhan o'r prosiect yma, rwyt ti'n helpu meddygon i ofalu am blant sydd ag asthma – diolch i ti am ymuno.

## Oes gen ti unrhyw gwestiynau?

Fe alli di ofyn i riant neu warcheidwad anfon e-bost i NRAPinbox@rcp.ac.uk, neu ffonio 020 3075 1526.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan NRAP hefyd yn: www.rcp.ac.uk/projects/primary-care-workstream

Yn gweithio gyda:

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Comisiynwyd gan:

HQIP Healthcare Quality Improvement Partnership

© Coleg Brenhinol y Meddygon | Medi 2023